

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	<i>Cymru Ddi-fwg: Ein Strategaeth Hirdymor ar Reoli Tybaco yng Nghymru a Tuag at Gymru Ddi-fwg: y Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco 2022-2024</i>
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Alice Puchades Stephanie Barnhouse Wallis Turner Matthew King
Adran:	Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	Ed Wilson
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Lynne Neagle AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Dyddiad Dechrau:	Medi 2021

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r Rhaglen Lywodraethu 2021-2025 yn glir bod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chanolbwyntio ar atal yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru. Mae smygu'n hynod o niweidiol ac andwyol i iechyd, a dyna yw un o brif achosion anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru o hyd. Smygu sydd wrth wraidd marwolaeth oddeutu hanner y smygwyr hirdymor¹, ac mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn amcangyfrif bod tybaco yn lladd mwy nag 8 miliwn o bobl drwy'r byd bob blwyddyn.² Yng Nghymru, smygu yw'r brif elfen sydd wrth wraidd marwolaethau ataliadwy, ac yn 2018 cafodd oddeutu 5,600 o farwolaethau ymhlith pobl 35 oed a hŷn eu priodoli i smygu.³ Ymhellach, mae trin clefydau sy'n gysylltiedig â smygu yn arwain at effeithiau economaidd mawr, gan gostio rhyw £302 miliwn bob blwyddyn i'r GIG yng Nghymru.⁴

Ymhellach, gwyddom fod smygu yn cynyddu risg pobl o ddatblygu amrywiaeth eang o anhwylderau – sef anhwylderau a all fod yn angheuol neu a all achosi niwed hirdymor parhaol i'w hiechyd.⁵ Mae'r rhain yn cynnwys mathau o ganser, clefydau anadlol, a chlefydau cardiofasgwlaidd fel strôc, trawiad ar y galon a dementia. Ymhellach, gall anhwylderau sy'n gysylltiedig â smygu arwain at nifer fawr o dderbyniadau i'r ysbyty. Yn 2018/19, amcangyfrifir bod oddeutu 28,000 o dderbyniadau ymhlith pobl 35 oed a hŷn yn gysylltiedig â smygu, sef oddeutu 4.6 y cant o'r holl dderbyniadau yn y grŵp oedran hwn.⁶

Ond nid smygwyr yn unig sy'n cael niwed yn sgil smygu. Dangoswyd bod dod i gysylltiad â mwg ail-law yn achosi niwed mawr, gan gynyddu risg pobl nad ydynt yn smygu o ddatblygu clefydau sy'n gysylltiedig â smygu, yn cynnwys canser yr ysgyfaint a chlefydau cardiofasgwlaidd.⁷ Mae dod i gysylltiad â mwg ail-law yn arbennig o niweidiol i blant, gan arwain at gyflyrau fel clefyd y glust ganol, asthma ac alergeddau.⁸ Gwyddom fod smygu yn ystod beichiogrwydd yn gallu effeithio mewn sawl ffordd ar y beichiogrwydd a'r plentyn yn

¹ Doll, R., Peto, R., Boreham, J. and Sutherland, I. (2004) Mortality in relation to smoking: 50 years' observations on male British doctors

² Sefydliad Iechyd y Byd. 2019. Taflen ffeithiau tybaco ar gael yn: <https://www.who.int/en/news-room/fact-sheets/detail/tobacco>

³ Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2020. Ysmegu yng Nghymru. Ar gael yn: <https://publichealthwales.shinyapps.io/ysmyguynghymru/>

⁴ Llywodraeth Cymru. 2016. Memorandwm Esboniadol i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Ar gael yn: <https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld10796-em/pri-ld10796-em-e.pdf>

⁵ Y GIG. 2018. What are the health risks of smoking? Ar gael yn: <https://www.nhs.uk/common-health-questions/lifestyle/what-are-the-health-risks-of-smoking/>

⁶ Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2020. Ysmegu yng Nghymru. Ar gael yn: <https://publichealthwales.shinyapps.io/ysmyguynghymru/>

⁷ Yr Adran Iechyd, Llywodraeth y DU. Scientific Committee on Tobacco and Health (SCOTH). 2004. Secondhand Smoke: Review of the evidence since 1998. Ar gael yn: http://www.smokefreeengland.co.uk/files/scoth_secondhandsmoke.pdf

⁸ Coleg Brenhinol y Meddygon Llundain. 2010. Passive Smoking and Children. Ar gael yn: <https://cdn.shopify.com/s/files/1/0924/4392/files/passive-smoking-and-children.pdf?15599436013786148553>

nes ymlaen yn ei fywyd, yn cynnwys risg uwch o ddioddef camesgoriad, genedigaeth gynamserol a syndrom marwolaeth sydyn babanod (SIDS).⁹

Mae fersiwn ddrafft "Cymru Ddi-fwg: Ein Strategaeth Hirdymor ar Reoli Tybaco yng Nghymru" a'n cynllun cyflawni cyntaf "Tuag at Gymru Ddi-fwg: y Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco" yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ar 8 Tachwedd 2021. Mae'r rhain yn cynnwys uchelgais i gael Cymru ddi-fwg erbyn 2030. Mae hyn yn golygu cael cyfradd cyffredinrwydd smygu o 5% neu lai ymhlith oedolion.

Mae sicrhau cyfradd cyffredinrwydd o 5% bellach yn un o brif nodau Tobacco Endgame, sef y camau mae'n ofynnol eu cymryd er mwyn cael byd sy'n rhydd o dybaco.^{10 11 12} Bydd lleihau cyffredinrwydd smygu i ffigur sydd islaw 5% yn garreg filltir allweddol o ran dileu'r niwed a achosir gan dybaco. Nid yn unig fe fydd hyn yn gwella bywydau trwy atal anhwylderau sy'n gysylltiedig â smygu a marwolaethau, ond hefyd bydd yn cefnogi cymdeithas iachach, fwy cyfartal i bawb.

Mae lleihau effeithiau smygu ar iechyd yn flaenoriaeth polisi gydnabyddedig i Lywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni hwn yn cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu wrth iddynt ganolbwyntio ar gefnogi pobl i fyw bywydau iach a mynd i'r afael ag anghydraddolebau iechyd. Datblygwyd y strategaeth a'r cynllun cyflawni cyntaf mewn cydweithrediad â Gweithgor y Cynllun Gweithredu ar Reoli Tybaco a'r Bwrdd Strategol ar Reoli Tybaco. Rhoddodd y gweithgor gyngor ar bob elfen yn y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni cyntaf, gan gynnwys y weledigaeth ar gyfer cael "Cymru ddi-fwg erbyn 2030" ynghyd â strwythur y dogfennau a'r camau gweithredu penodol i'w cyflawni o fewn y ddwy flynedd nesaf o fewn y Cynllun Cyflawni. Roedd aelodau'r gweithgor yn dod o ystod eang o sefydliadau gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, y trydydd sector, Prifysgol Caerdydd, Coleg Brenhinol y Meddygon a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â phob agwedd ar smygu wrth inni ganolbwyntio ar wireddu ein huchelgais ddi-fwg. Hefyd, mae'n pennu'r tair thema ar gyfer ein gwaith wrth inni fwrw ymlaen â'r newidiadau angenrheidiol mewn smygu yng Nghymru. Dyma'r themâu:

Thema 1: Lleihau Anghydraddolebau

Thema 2: Cenedlaethau'r Dyfodol

⁹ Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr. 2021. Smoking and Pregnancy. Ar gael yn: <https://www.rcog.org.uk/en/patients/patient-leaflets/smoking-and-pregnancy/>

¹⁰ Malone RE (2013). Tobacco endgames: what they are and are not, issues for tobacco control strategic planning, and a possible US scenario. *Tob Control*;22(Suppl1):i42-4.

¹¹ McDaniel PA, Smith EA, Malone RE (2016). *Tob Control*;25:594-604.

¹² Warner et al (2014) Impact of tobacco control on adult per capita cigarette consumption in the United States, *104 AM.J.PUBLIC HEALTH*.83, 83-89

Thema 3: Dull System Gyfan ar gyfer Cymru Ddi-fwg

I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon, byddwn yn rhoi cyfres o gynlluniau cyflawni dwy flynedd ar waith, gan ddechrau gyda 2022-2024. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'n fanwl pa gamau y byddwn yn eu cefnogi ac yn mynd i'r afael â nhw wrth inni weithio tuag at Gymru ddi-fwg. Mae'r cynllun cyflawni dwy flynedd cyntaf yn cynnwys pum maes gweithredu â blaenoriaeth sef:

1. Amgylcheddau di-fwg
2. Gwelliant parhaus a chefnogi arloesi
3. Grwpiau blaenoriaeth
4. Mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli tybaco
5. Gweithio ar draws y DU

Trwy drefnu ein camau yn gynlluniau cyflawni dwy flynedd, byddwn yn creu ac yn cynnal momentwm i gyflawni'r weledigaeth ond hefyd byddwn yn sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i addasu i amgylcheddau a blaenoriaethau a all newid. Bydd y cynlluniau cyflawni dwy flynedd yn trefnu'r camau yn ôl meysydd blaenoriaeth, a bydd y meysydd hyn yn ymwneud â'r tair thema a bennir yn y strategaeth.

Defnyddir dull cydlynol a arweinir gan y gymuned wrth weithredu'r Cynllun Cyflawni. Bydd y Bwrdd Strategol ar Reoli Tybaco yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu "Tuag at Gymru Ddi-fwg" a bydd yn monitro effaith y camau gweithredu yn y cynllun cyflawni hwn a'n cynnydd tuag at Gymru ddi-fwg.

Bydd goblygiadau ariannol parhaus i weithredu'r strategaeth a'r cynlluniau cyflawni. Bydd y rhain yn cael eu bodloni gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid sy'n gweithio ar y cyd i nodi'r ffordd orau o weithredu'r strategaeth a'r camau gweithredu yn y cynlluniau cyflawni.

Mae darpariaethau wedi'u cynnwys yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i ymestyn gofynion ynghylch mannau di-fwg yng Nghymru. Mae darpariaethau hefyd ar gael y gellir eu defnyddio fel rhan o'n fframwaith cyfreithiol ar reoli tybaco yng Nghymru i ddiogelu'r cyhoedd, yn enwedig plant a phobl ifanc, rhag niwed tybaco a chynhyrchion nicotin. Fel rhan o gynllun cyflawni 2022-24 byddwn yn casglu'r dystiolaeth i benderfynu a fydd yr ysgogiadau deddfwriaethol hyn yn cael eu defnyddio, a sut. Os caiff rheoliadau eu datblygu, bydd asesiad effaith rheoleiddiol hefyd yn cael ei gwblhau i ddeall eu heffaith lawn.

ADRAN 8. CASGLIAD

Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Datblygwyd y strategaeth rheoli Tybaco a'i chynllun cyflawni cyntaf mewn cydweithrediad â Gweithgor y Cynllun Gweithredu ar Reoli Tybaco a'r Bwrdd Strategol ar Reoli Tybaco, sy'n cynnwys aelodau o ystod eang o sefydliadau gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, y trydydd sector, Prifysgol Caerdydd, Coleg Brenhinol y Meddygon a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynlluniau cyflawni ar gyfer y dyfodol sy'n cefnogi ein strategaeth ar reoli tybaco.

Mae'r strategaeth ddrafft a'r cynllun cyflawni cyntaf yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ar 8 Tachwedd 2021. Bydd hyn yn cynnwys cynhadledd i randdeiliaid a gwaith ymgysylltu i gasglu barn y cyhoedd gan gynnwys grwpiau blaenoriaeth y mae smygu'n cael mwy o effaith arnynt, fel pobl feichiog, plant a phobl ifanc, cyn-ysmygwyr, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, grwpiau o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a'r gymuned LGBTQ. Bydd yr holl ddogfennau a gyhoeddir a'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhelir i gefnogi'r ymgynghoriad yn gwbl ddwyieithog ac yn rhoi cyfle cyfartal i bawb gymryd rhan.

Y bwriad yw y bydd yr holl gamau a gymerir yn y cynlluniau cyflawni yn defnyddio dull yn y gymuned, gan weithio ar y cyd â grwpiau blaenoriaeth gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a grwpiau eraill sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan ddefnydd tybaco.

Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Pobl – Bydd effeithiau'r strategaeth ar reoli tybaco yn gadarnhaol i bobl yng Nghymru. Mae'r strategaeth ar reoli tybaco yn nodi ein huchelgais i gael Cymru ddi-fwg a'i nod yw lleihau'r niweidiau sylweddol a achosir gan y defnydd o dybaco yng Nghymru. Yng Nghymru, smygu yw'r brif elfen sydd wrth wraidd marwolaethau ataliadwy, ac yn 2018 cafodd oddeutu 5,600 o farwolaethau ymhlith pobl 35 oed a hŷn eu priodoli i smygu.¹³ Ymhellach, gwyddom fod smygu yn cynyddu risg pobl o ddatblygu amrywiaeth eang o anhwylderau – sef anhwylderau a all fod yn angheuol neu a all achosi niwed hirdymor parhaol i'w hiechyd.¹⁴ Mae'r rhain yn cynnwys mathau o ganser, clefydau anadlol, a chlefydau cardiofasgwlaidd fel strôc, trawiad ar y galon a dementia.

¹³ Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2020. Ysmegu yng Nghymru. Ar gael yn: <https://publichealthwales.shinyapps.io/ysmyguynghymru/>

¹⁴ Y GIG. 2018. What are the health risks of smoking? Ar gael yn: <https://www.nhs.uk/common-health-questions/lifestyle/what-are-the-health-risks-of-smoking/>

Mae sicrhau cyfradd cyffredinrwydd o 5% bellach yn un o brif nodau Tobacco Endgame, sef y camau mae'n ofynnol eu cymryd er mwyn cael byd sy'n rhydd o dybaco.^{15 16 17} Bydd lleihau cyffredinrwydd smygu i ffigur sydd islaw 5% yn garreg filltir allweddol o ran dileu'r niwed a achosir gan dybaco. Nid yn unig fe fydd hyn yn gwella bywydau trwy atal anhwylderau sy'n gysylltiedig â smygu, ond hefyd bydd yn cefnogi cymdeithas iachach, fwy cyfartal i bawb. I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon, byddwn yn rhoi cyfres o gynlluniau cyflawni dwy flynedd ar waith, gan ddechrau gyda 2022-2024. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'n fanwl pa gamau y byddwn yn eu cefnogi ac yn mynd i'r afael â nhw wrth inni weithio tuag at Gymru ddi-fwg.

Diwylliant

Dim effaith sylweddol.

Y Gymraeg

Dim effaith sylweddol.

Economi

Dim effaith sylweddol. Mae manteision economaidd o ran creu Cymru ddi-fwg, cefnogi smygwyr i roi'r gorau i smygu ac atal pobl ifanc rhag dechrau smygu. Mae adroddiad o 2013 a gynhyrchwyd gan ASH Cymru ar gost economaidd smygu i Gymru yn amcangyfrif mai tua £790m y flwyddyn yw'r gost.¹⁸

Amgylchedd

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni cyntaf yn canolbwyntio ar yr effeithiau negyddol y gall smygu, ynghyd â defnyddio cynhyrchion eraill sy'n cynnwys nicotin, eu cael ar yr amgylchedd. Er mwyn cynhyrchu'r 6 triliwn o sigarêts a gaiff eu gwneud bob blwyddyn drwy'r byd, mae angen llawer o dir, dŵr, ynni a deunyddiau, ac mae'r broses yn cynhyrchu llawer iawn o wastraff ac allyriadau.¹⁹ Mae hidlyddion sigarêts yn fath o blastig untro a all

¹⁵ Malone RE (2013). Tobacco endgames: what they are and are not, issues for tobacco control strategic planning, and a possible US scenario. *Tob Control*;22(Suppl1):i42-4.

¹⁶ McDaniel PA, Smith EA, Malone RE (2016). *Tob Control*;25:594-604.

¹⁷ Warner et al (2014) Impact of tobacco control on adult per capita cigarette consumption in the United States, *104 AM.J.PUBLIC HEALTH*.83, 83-89

¹⁸ ASH Cymru. 2013. Cost economaidd ysmegu yng Nghymru: adolygiad o'r dystiolaeth bresennol. Ar gael yn: https://orca.cardiff.ac.uk/89325/1/cost_of_smoking_to_wales_2013.pdf

¹⁹ Zafeiridou, M. et al. 2018. Cigarette Smoking: An Assessment of Tobacco's Global Environmental Footprint Across Its Entire Supply Chain. *Environmental Science and Technology*. Available at: <https://pubs.acs.org/doi/pdf/10.1021/acs.est.8b01533>

aros yn yr amgylchedd am hyd at 14 mlynedd²⁰ ac amcangyfrifir bod 122 tunnell o sbwriel sy'n gysylltiedig â smygu yn cael ei ollwng yn y DU bob diwrnod. Yn ôl un arolwg, daethpwyd o hyd i sbwriel a oedd yn gysylltiedig â smygu ar 80.3% o strydoedd Cymru - ar sail hyn, gellir dweud mai eitemau sy'n gysylltiedig â smygu yw'r eitemau mwyaf cyffredin i gael eu taflu ar ffurf sbwriel.²¹

Mae'r strategaeth a'r cynllun cyflawni cyntaf yn edrych ar sut y gall mesurau rheoli tybaco gefnogi blaenoriaethau diogelu'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd, a chael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r rôl sydd gan negeseuon amgylcheddol o ran rheoli tybaco, a gweithio gyda Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i gefnogi camau ledled y DU i fynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol sydd ynghlwm wrth smygu.

Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd lleihau cyffredinrwydd smygu i ffigur sydd islaw 5% yn garreg filltir allweddol o ran dileu'r niwed a achosir gan dybaco. Nid yn unig fe fydd hyn yn gwella bywydau trwy atal anhwylderau sy'n gysylltiedig â smygu, ond hefyd bydd yn cefnogi cymdeithas iachach, fwy cyfartal i bawb.

Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a phobl a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y mesurau a nodwyd yn y strategaeth a'i chynlluniau cyflawni i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Y Bwrdd Strategol ar Reoli Tybaco sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu a chyflwyno'r strategaeth a'r cynlluniau cyflawni. Bydd Grŵp Gweithredu'r Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco yn cynorthwyo'r Bwrdd, a bydd y grŵp hwn yn cael ei ffurfio er mwyn cefnogi, monitro a gweithredu'r modd y rhoddir y cynlluniau cyflawni ar waith, yn ogystal â mynd i'r afael â'r ymgysylltu a'r cydweithio angenrheidiol. Bydd aelodau'r grŵp gweithredu'n cael eu penodi gan y Bwrdd Strategol ar Reoli Tybaco, a byddant yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd ac i Weinidogion Cymru.

Cylch gwaith y Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco yw:

²⁰Joley, F. and Coulis, M. 2018. Comparison of cellulose vs. plastic cigarette filter decomposition under distinct disposal environments. Waste Management. Available at:

<https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S0956053X17308474>

²¹ Cadwch Gymru'n Daclus. 2018. Sbwriel cysylltiedig ag ysmegu. Ar gael yn:

<https://www.keepwalestidy.cymru/Handlers/Download.ashx?IDMF=00522334-9e7a-423d-b6c8-4227f87dbec3>

1. Bwrw ymlaen â chyflawni ein gweledigaeth a'n nodau o gael Cymru ddi-fwg erbyn 2030.
2. Goruchwylio a monitro'r modd y caiff hyn ei gyflawni a bod yn atebol am weithredu'r camau a nodir yn y cynlluniau cyflawni.
3. Cynnig cyngor ac argymhellion clir, realistig, seiliedig ar dystiolaeth er mwyn llywio'r modd y rhoddir y cynlluniau cyflawni ar waith, gan ategu strwythur clir a cherrig milltir priodol.
4. Cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau cyflawni dilynol, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgir yn sgil cynlluniau blaenorol a gwaith gwerthuso parhaus.

I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth hon a pharhau i ganolbwyntio ar ein huchelgais, byddwn yn cyhoeddi cyfres o gynlluniau dwy flynedd a fydd yn nodi'n fanwl pa gamau y byddwn yn eu cefnogi ac yn mynd i'r afael â nhw wrth inni weithio tuag at gael Cymru ddi-fwg. Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso ein camau'n barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd tuag at ddod yn Gymru ddi-fwg. Byddwn yn dryloyw o ran y modd y rhoddir y strategaeth ar waith, a byddwn yn ceisio cyfraniadau ac adborth adeiladol gan amrywiaeth eang o bobl, sefydliadau a chymunedau. Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio'r holl ffynonellau data sydd ar gael a'n bod yn cryfhau ein systemau casglu data er mwyn inni allu mynd ati'n fanwl gywir i asesu ein cynnydd ar draws gwahanol feysydd yn ymwneud â rheoli tybaco.